# MEMORANDWM ESBONIADOL A CHYFARWYDDYD I BOB AWDURDOD LLEOL A HOLL GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR AC YSGOLION SEFYDLEDIG YNG NGHYMRU O DAN ADRAN 32B O DDEDDF ADDYSG 2002

## MEMORANDWM ESBONIADOL

### Cyflwyniad a Chefndir

1) Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfarwyddo o dan adran 32B(1) o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002").

2) Diben y ddogfen hon yw darparu datganiad cyhoeddus a thryloyw ar benderfyniad Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd ac amlinellu sut y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Bwriad arall y ddogfen yw nodi diben ac effaith y cyfarwyddyd ar gyfer dinasyddion, aelodau, swyddogion a phartneriaid awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ("cyrff llywodraethu perthnasol").

3) Mae adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") wedi gwneud newidiadau i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru drwy fewnosod adrannau newydd 32A i 32C yn Neddf 2002. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir. Yn ogystal, mae cyrff llywodraethu perthnasol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol yn ei ardal ac â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod. Yn yr un modd, mae gan gorff llywodraethu perthnasol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol arall yn ardal ei awdurdod lleol ac â'r awdurdod lleol y mae wedi'i leoli ynddo wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod.

4) Mae'r term "ysgol a gynhelir" yn cael ei ddiffinio yn adran 32A(9) o Ddeddf 2002 ac mae'n cynnwys ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Mae'r adran honno'n diffinio "dyddiadau tymhorau" fel dyddiadau dechrau a gorffen tymhorau a gwyliau ysgol.

5) Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae adran 32B(1) o Ddeddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau.

6) Mae adran 32A(5) o Ddeddf 2002 yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau y maent wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd perthnasol. Mae'r Rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 32A(6) o Ddeddf 2002 yn pennu ffurf yr hysbysiad hwnnw. Yn unol â hynny, effaith Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau Hysbysu") yw bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd am y tro cyntaf ym mlwyddyn ysgol 2016/17. Mae'r Rheoliadau Hysbysu yn darparu bod angen darparu'r dyddiadau tymhorau ar gyfer 2016/17 erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst (yn yr achos hwn, 29 Awst 2014).

7) Hysbyswyd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol am y tro cyntaf ynghylch yr angen i ddechrau cydweithio er mwyn cytuno ar ddyddiadau tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016-17 mewn llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 2 Gorffennaf 2013. Eglurodd y llythyr hefyd y byddai angen i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ddechrau cydweithio ar unwaith i gytuno ar ddyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol honno erbyn diwedd haf 2014.

8) Aeth Gweinidogion Cymru ati i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 9 Medi a 29 Tachwedd 2013 ar gynigion polisi ar gyfer y Rheoliadau Hysbysu, a oedd yn cynnwys manylion yr hysbysiad y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei gwblhau i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau a bennir ar gyfer pob ysgol a gynhelir – gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig – yn eu hardaloedd.

9) Roedd yr ymgynghoriad hwnnw hefyd yn cynnwys cynigion y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau am y tro cyntaf ym mlwyddyn ysgol 2016/17, ac y byddai angen darparu pob hysbysiad erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd yn union cyn dechrau'r flwyddyn ysgol. O safbwynt 2016-17, nododd yr ymgynghoriad y byddai hyn yn golygu y byddai angen derbyn pob hysbysiad erbyn 29 Awst 2014.

10) Anfonodd swyddogion Llywodraeth Cymru neges e-bost i'r holl awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol er mwyn eu hatgoffa am yr angen i gydweithio wrth bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016-17 ymlaen ar ôl i daith Deddf 2014 drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei chwblhau. Roedd hyn yn cynnwys dolen i gopi drafft yr hysbysiad a oedd i'w ddefnyddio wrth hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau a bennwyd. Anfonodd swyddogion Llywodraeth Cymru e-bost arall i atgoffa awdurdodau lleol ar ôl i Ddeddf

2014 dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014, a chyhoeddwyd erthygl yng nghylchgrawn newyddion ysgolion ar-lein Llywodraeth Cymru sydd ar gael i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

11) Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol, darparodd y Rheoliadau Hysbysu fod modd cwblhau ac anfon hysbysiadau at Weinidogion Cymru hefyd drwy ddull electronig. Gan fod angen i gadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu perthnasol lofnodi'r hysbysiad ar ran yr ysgol, yn ogystal â chyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol perthnasol, mae'r Rheoliadau Hysbysu hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio hysbysiadau rhannol sy'n cynnwys dyddiadau tymhorau ar gyfer un ysgol neu fwy.

12) Mae Gweinidogion Cymru wedi derbyn hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau a oedd wedi'u pennu ar gyfer 2016-17 ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir (h.y. ysgolion y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer) gan bob awdurdod lleol ond un. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r awdurdodau lleol wedi gallu darparu hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer pob un o'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'r ysgolion ffydd yn eu hardaloedd penodol.

13) Ar sail yr hysbysiadau yr oeddent wedi'u derbyn, roedd Gweinidogion Cymru yn credu nad oedd dyddiadau'r tymhorau yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod) ledled Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2016-17. Felly, er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau yr un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fel nad yw teuluoedd yn wynebu problemau wrth ddod o hyd i ofal plant ychwanegol, a thalu amdano,pa n nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni, mae Gweinidogion Cymru wedi cynnig defnyddio eu pwerau cyfarwyddo.

**Dadansoddiad o'r hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd am hanner dydd ar 7 Hydref 2014**

*Hysbysiadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru:*

14) Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi coladu'r dyddiadau arfaethedig a anfonwyd ar gyfer ysgolion awdurdodau lleol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ledled Cymru, a sylwi nad oedd dyddiadau'r tymhorau yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod). Mae'r awdurdodau lleol a anfonodd hysbysiadau ar gyfer eu hysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir y maent wedi pennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer wedi'u rhannu'n 4 grŵp gwahanol er mwyn dadansoddi dyddiadau'r tymhorau a bennwyd, ac maent wedi'u nodi yn Atodiad A. Mae'r dyddiadau a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru wedi'u nodi yn Atodiad B.

15) Anfonodd pob awdurdod lleol ond un hysbysiadau ar gyfer dyddiadau tymhorau 2016/17 ar gyfer yr ysgolion a gynhelir y mae ganddynt gyfrifoldeb i bennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer.

16) Mae'r holl awdurdodau lleol yng ngrŵp A (De Cymru) wedi pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer yr ysgolion y maent yn pennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer a oedd yr un fath â'i gilydd.

17) Mae'r holl awdurdodau lleol yng ngrŵp awdurdodau lleol B (y rhai sydd yn ardal Gogledd Cymru) wedi pennu dyddiadau tymhorau a oedd yr un fath. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiadau a bennwyd yng ngrŵp awdurdodau lleol B (Gogledd Cymru) yr un fath bob amser â'r dyddiadau yng ngrŵp awdurdodau lleol A (De Cymru).

18) Ar gyfer awdurdodau lleol yng ngrŵp awdurdodau lleol C a grŵp awdurdodau lleol D (y rhai yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru), fel y gwelir yn Atodiad B, nid oedd y dyddiadau ar gyfer dechrau a diwedd y flwyddyn ysgol yr un fath, ac roedd y dyddiadau hyn ychydig yn wahanol i'r dyddiadau yng ngrŵp awdurdodau lleol B (Gogledd Cymru) a grŵp awdurdodau lleol A (De Cymru).

19) Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a hysbysodd Weinidogion Cymru am ddyddiadau eu tymhorau wedi pennu dyddiad gwyliau'r Pasg i sicrhau y byddai eu hysgolion yn gorffen ar ddydd Gwener 7 Ebrill 2017, ac na fyddai'r disgyblion felly yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Fawr (14 Ebrill yw dyddiad dydd Gwener y Groglith yn 2017).

*Hysbysiadau gan gyrff llywodraethu perthnasol:*

20) Cymysg oedd y gyfradd ymatebion o safbwynt derbyn hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau gan gyrff llywodraethu perthnasol ledled Cymru. O'r 167 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, derbyniwyd hysbysiadau wedi'u llofnodi am ddyddiadau tymhorau a bennwyd ar gyfer 2016/17 ar gyfer 70 ysgol yn unig, sef ychydig yn llai na 42%.

21) O'r hysbysiadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod dyddiadau'r tymhorau a bennwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ledled Cymru yn amrywio rhywfaint, roedd 61 o'r ysgolion hyn (sef 87% o'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'r ysgolion sefydledig y derbyniodd Llywodraeth Cymru hysbysiadau ar eu cyfer) yn fodlon cytuno ar yr un dyddiadau tymhorau a bennwyd gan eu hawdurdod lleol ar gyfer yr ysgolion y mae'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer (ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir).

22) Fodd bynnag, mae 86 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir Catholig yng Nghymru, ac o'r rhain derbyniwyd 37 o hysbysiadau wedi'u llofnodi am ddyddiadau tymhorau. Nid oedd 9 o'r rhain yn fodlon cael yr un gwyliau

Pasg â'u hawdurdodau lleol, ac yn hytrach roedd yn well ganddynt ddewis dyddiadau a fyddai'n golygu bod eu disgyblion yn parhau i fod yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Fawr h.y. hyd at ac yn cynnwys Dydd Iau Cablyd (13 Ebrill 2017). Serch hynny, mae hyn yn golygu bod 28 neu ychydig dan 76% o'r hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion Catholig yn dangos bod yr ysgolion hyn yn fodlon cyd-fynd â'u hawdurdod lleol a dechrau gwyliau'r Pasg cyn dechrau'r Wythnos Fawr.

23) Hyd yn oed o ystyried yr wybodaeth heb ei dilysu a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion Catholig (fel arfer ar ffurf hysbysiadau heb eu llofnodi am ddyddiadau tymhorau a gwybodaeth dros dro gan awdurdodau lleol neu'r ysgolion eu hunain) byddai hyn yn parhau i olygu bod mwyafrif cyffredinol o'r ysgolion Catholig yn fodlon bod eu gwyliau Pasg yn cyd-fynd â'r hyn a bennir gan eu hawdurdod lleol. Y rheswm am hyn yw bod 7 o'r 11 achos o wybodaeth heb ei dilysu yn fodlon bod dyddiadau'r tymhorau yn cyd-fynd â dyddiadau eu hawdurdod lleol, tra bod 4 yn anfodlon â hynny. Wrth gyfuno'r wybodaeth hon â'r hysbysiadau wedi'u llofnodi a ddaeth i law, mae gennym wybodaeth am ddewisiadau dyddiadau tymhorau 48 o ysgolion Catholig, ac mae 35 neu ychydig yn llai na 73% o'r rhain yn fodlon bod dyddiadau eu tymhorau yn cyd-fynd â dyddiadau eu hawdurdod lleol, ac na fydd eu disgyblion yn aros yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Fawr.

24) Roedd pob un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru y derbyniwyd hysbysiadau wedi'u llofnodi ar eu cyfer yn fodlon bod dyddiadau eu tymhorau yn cyd-fynd â dyddiadau eu hawdurdod lleol.

**Casgliad**

25) Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl hysbysiadau yn ofalus iawn, ac wedi penderfynu cynnig set o ddyddiadau tymhorau sydd, yn eu barn hwy, wedi ystyried rhai agweddau ar ddyddiadau tymhorau o bob prif ranbarth yng Nghymru, ac adlewyrchu safbwyntiau'r rhan fwyaf o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â gwyliau'r Pasg.

26) O ganlyniad penodol i'r ystadegau hyn, roedd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn rhesymol cynnig dyddiadau tymhorau ar gyfer 2016/17 sy'n golygu y bydd pob ysgol yn dechrau gwyliau'r Pasg cyn i'r Wythnos Fawr ddechrau.

**Ymgynghoriad ar ddyddiadau tymhorau arfaethedig ar gyfer 2016/17 a Chyfarwyddyd**

27) Cyn defnyddio'u pwerau cyfarwyddo mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol yn unol â Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 10 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015 ar y dyddiadau tymhorau yr oedd Gweinidogion

Cymru'n bwriadu eu pennu. Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd yr ymgyngoreion yn cytuno â'r cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/17 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig. Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2016/17 yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd:

| | |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol | Dydd Iau 1 Medi 2016 |
| Gwyliau hanner tymor yr Hydref | Dydd Llun 24 Hydref 2016<br>tan ddydd Gwener 28 Hydref 2016 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016<br>tan ddydd Llun 2 Ionawr 2017 (h.y. dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth 3 Ionawr 2017) |
| Hanner tymor y Gwanwyn | Dydd Llun 20 Chwefror 2017<br>tan ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun 10 Ebrill 2017<br>tan ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 |
| Hanner tymor yr Haf | Dydd Llun 29 Mai 2017<br>tan ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 |
| Diwrnod olaf yn yr ysgol | Dydd Gwener 21 Gorffennaf 2017 |

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

28) Mae crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn http://llyw.cymru/consultations/education/harmonising-school-term-dates/?skip=1&lang=cy. Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

29) Derbyniwyd 48 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd 22 (46%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dyddiadau a'r cyfarwyddyd arfaethedig, roedd 21 (44%) o ymatebwyr yn anghytuno ac nid oedd 5 (10%) o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno.

30) Roedd y rhai a oedd yn cytuno'n cynnwys:

- 15 o awdurdodau lleol;
- roedd 4 o'r ymatebwyr (yn ogystal ag Awdurdod Lleol Powys) yn cytuno ar y sail nad yw'r dyddiadau'n effeithio ar Sioe Frenhinol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sant Mihangel;
- 1 ysgol gynradd gymunedol;
- Comisiynydd Plant Cymru; ac

- Estyn.

31) Roedd y rhai a oedd yn anghytuno'n cynnwys:

- Un awdurdod lleol ar y sail bod cadw at ddyddiadau calendr ar gyfer y Pasg yn golygu pan fo'r Pasg yn hwyr bod tymor y gwanwyn yn hir ac nad oes llawer o amser ar ôl y gwyliau i gefnogi a pharatoi ar gyfer arholiadau;
- Pennaeth ysgol gymunedol ar sail tymhorau anghyfartal o ran hyd;
- 7 o ymatebion o 3 ysgol Gatholig ar sail pwysigrwydd cyfnod y Pasg ac amryw ddigwyddiadau a dathliadau'r ffydd Gatholig;
- 7 o ymatebion gan rieni, a phlwyfolion ac eraill sy'n gysylltiedig â 3 ysgol Gatholig ar sail debyg;
- Esgobaeth Gatholig Wrecsam;
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau ar sail gwyliau athrawon y cytunwyd arnynt yn flaenorol; a
- 3 o ymatebwyr, gan gynnwys 2 ar y rhagdybiaeth anghywir bod y dyddiadau yn cyd-daro â Sioe Frenhinol Cymru ac 1 a oedd yn anghytuno ar y sail nad oedd hi'n glir sut y gallai hyn effeithio ar Sioeau Brenhinol Cymru yn y dyfodol, er nad oedd yn gwrthwynebu dyddiadau 2016/17.

32) Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y nifer a oedd yn cytuno â chynigion yr ymgynghoriad (22) a'r rhai a oedd yn anghytuno (21). Fodd bynnag, dylid nodi bod 2 o ymatebwyr yn anghytuno ar ragdybiaeth anghywir am Sioe Frenhinol Cymru, ac nad oedd un arall yn gwrthwynebu'r dyddiadau ar gyfer 2016/17 ond yn bryderus am effaith dyddiadau ar Sioeau Brenhinol Cymru yn y dyfodol. Pe baem yn diystyru'r 3 ymateb hyn, byddai mwy o fwyafrif yn cytuno (22) nac yn anghytuno (18).

33) Awgrymodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ymateb cymysg i'r broses gysoni gan y rhai a oedd yn gysylltiedig ag ysgolion Catholig. Er enghraifft, roedd holl ysgolion y Gogledd, gan gynnwys pob ysgol yn ardal Esgobaeth Wrecsam y derbyniwyd hysbysiadau ar eu cyfer, wedi dangos eu bod yn fodlon cysoni eu dyddiadau â'u hawdurdod lleol, gan gynnwys gwyliau'r Pasg. Fodd bynnag, yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, anghytunodd Esgobaeth Gatholig Wrecsam â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig.

34) Y tu allan i'r broses ymgynghori ffurfiol, anfonwyd 185 o lythyrau ymgyrch templed safonol i swyddfeydd etholaethol y Gweinidog a Llywodraeth Cymru gan rieni ac eraill sy'n gysylltiedig â 3 ysgol Gatholig sydd wedi'u lleoli mewn dwy ardal awdurdod lleol. Nid oedd y llythyrau'n ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad, ond yn dadlau:

(a) Bod y ddeddfwriaeth wedi'i rhuthro drwodd heb fawr o ymgynghori, os o gwbl;
(b) Nad oedd yr ymatebwr wedi gweld, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal; ac

(c) Y gallai digwyddiadau ysbrydol gael eu cynnal yn ysgol yr ymatebwr yn ystod yr Wythnos Fawr neu y gallant gadw plant yn yr ysgol hyd at ychydig ddiwrnodau cyn y Nadolig ac y dylai cyrff llywodraethu ysgolion Catholig gael y rhyddid i bennu dyddiadau eu tymhorau ysgol eu hunain.

Hysbyswyd ymatebwyr bod Deddf Addysg (Cymru) 2014 wedi bod yn destun ymgynghori eang a darparwyd dolen iddynt i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd. Roeddynt wedi'u hannog hefyd i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried cynnwys y llythyrau a gyfeiriodd at 3 ysgol Gatholig yn unig o blith 86 ysgol Gatholig, wedi'u lleoli o fewn dwy ardal awdurdod lleol. Dylid nodi na dderbyniwyd hysbysiadau ar gyfer yr ysgolion hyn ac na ymatebodd yr ysgolion eu hunain i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, pe baem yn ychwanegu'r 3 ysgol at yr ysgolion Catholig y derbyniwyd hysbysiadau wedi'u harwyddo neu wybodaeth heb ei dilysu ar eu rhan, mae'n golygu y byddem wedi derbyn gwybodaeth ar gyfer 51 o'r 86 ysgol Gatholig gyda 35 o'r 51 o ysgolion hynny (69%) yn fodlon cysoni â'u hawdurdod lleol a gorffen y tymor yr wythnos cyn yr Wythnos Fawr.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at y digwyddiadau ysbrydol sy'n digwydd yn ystod yr Wythnos Fawr a'r Nadolig - a oedd yn faterion a ddaeth i sylw Gweinidogion Cymru drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn faterion a ystyriwyd.

Fodd bynnag, wrth bennu'r dyddiadau tymhorau terfynol i'w gosod, rydym wedi pwyso a mesur y llythyrau ochr yn ochr â barn y 21 awdurdod lleol a gyflwynodd hysbysiad yn pennu dyddiadau tymhorau sy'n golygu bod ysgolion yn cau yn ystod yr Wythnos Fawr a barn 61 o'r 70 o'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (gan gynnwys 37 o ysgolion Catholig) y derbyniwyd hysbysiadau ganddynt a oedd yn fodlon cysoni â'u hawdurdod lleol. Rydym hefyd wedi ystyried gwybodaeth heb ei dilysu ar ffurf hysbysiadau heb eu harwyddo sy'n dangos bod 7 ysgol Gatholig bellach yn fodlon cysoni â'u hawdurdod lleol.

Rydym yn ystyried hefyd bod awdurdodau lleol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ac eraill wedi derbyn digon o rybudd ymlaen llaw o'r cynigion i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol ac wedi cael digon o gyfle i fynegi eu barn, gan gynnwys tri ymgynghoriad ar wahân cyn i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ddod i rym ar 12 Mai 2014.

Er y byddai'n mynd yn groes i farn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig sydd wedi cymryd rhan yn y broses gysoni, rydym hefyd wedi ystyried yr opsiwn amgen o gadw ysgolion ar agor yn ystod yr Wythnos Fawr. Fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at dymor haf byr iawn yn 2016/17 a llai o amser i gefnogi a pharatoi ar gyfer arholiadau.

35) Felly, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus iawn ynghyd â'r hysbysiadau gwreiddiol a

dderbyniwyd ac wedi penderfynu peidio â diwygio'r dyddiadau a'r cyfarwyddyd arfaethedig a oedd yn destun ymgynghoriad am y rhesymau canlynol:

- Mae'r dyddiadau tymhorau arfaethedig yn adlewyrchu barn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad 12 wythnos a oedd yn cytuno â'r cynigion;

- Mae'r dyddiadau arfaethedig hefyd yn adlewyrchu barn y 21 awdurdod lleol a ddychwelodd yr hysbysiadau yn wreiddiol ac a oedd i gyd yn pennu'r gwyliau Pasg dwy wythnos i adael i ysgolion dorri ar ddydd Gwener 7 Ebrill 2017, sy'n golygu na fyddai ysgolion ar agor yn ystod yr Wythnos Fawr;

- Maent hefyd yn adlewyrchu barn 61 o'r 70 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (gan gynnwys 28 o ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir) y derbyniwyd hysbysiadau ganddynt a oedd yn fodlon cytuno ar y dyddiadau a bennwyd gan eu hawdurdod lleol;

- Mae gwybodaeth heb ei dilysu ar ffurf hysbysiadau heb eu harwyddo'n dangos bod 7 ysgol Gatholig arall yn fodlon cysoni dyddiadau eu tymhorau â'r rhai a bennwyd gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth wedi'i derbyn gan 48 o'r 86 o ysgolion Catholig a bod 35 (73%) o'r rhain yn fodlon cysoni â'r awdurdod lleol a bod ar wyliau yn ystod yr Wythnos Fawr;

- Felly, mae'r cyfarwyddyd yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru, gan gynnwys y farn a fynegwyd gan y mwyafrif o ysgolion Catholig, yn eu hysbysiadau ynglŷn â gwyliau'r Pasg ac mae hefyd yn adlewyrchu'r mwyafrif o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad;

- Mae'r dyddiadau sydd wedi'u pennu'n ystyried rhai agweddau ar ddyddiadau tymhorau pob rhanbarth yng Nghymru;

- Byddai diwygio'r dyddiadau fel bod ysgolion yn aros ar agor yn ystod yr Wythnos Fawr yn golygu y byddai hyd tymhorau'n anghyfartal gyda thymor yr haf yn llai na thymor yr hydref 2016 a thymor y gwanwyn 2017, sef 11 wythnos yn unig. Byddai hyn yn arwain at lai o amser i gefnogi a pharatoi ar gyfer arholiadau;

- Mae'r dyddiadau arfaethedig hefyd yn ystyried y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud gan yr awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu ysgol perthnasol hynny a gydweithiodd i gytuno ar ddyddiadau tymhorau ysgol.

36) Yn benodol, o ganlyniad i hynny, mae Gweinidogion Cymru'n credu ei bod yn rhesymol pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer 2016/17 lle bydd pob ysgol yn torri ar gyfer y Pasg cyn dechrau'r Wythnos Fawr.

37) Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon, felly, y dylid cyhoeddi'r cyfarwyddyd i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a'r holl gyrff llywodraethu perthnasol yng Nghymru. Mae angen y cyfarwyddyd hwn er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau yng Nghymru yr un fath.

38) Mae Gweinidogion Cymru wedi mynd ati'n gydwybodol i ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol wrth ystyried a ddylid cyflwyno'r cyfarwyddyd hwn. Mae Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol defnyddio eu pwerau cyfarwyddo i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru yr un fath. Yn ogystal â'r rhesymau a roddir ym mharagraff 35, mae hyn er mwyn sicrhau nad oes rhaid i deuluoedd ddod o hyd i ofal plant ychwanegol, a thalu amdano yn aml, oherwydd nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni.

39) Er enghraifft, os nad yw dyddiadau tymhorau yn cael eu cysoni, mae'n bosibl y bydd teuluoedd yn gorfod dod o hyd i ofal plant ychwanegol os oes ganddynt blant mewn ysgolion mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol, neu os oes ganddynt un plentyn mewn ysgol wirfoddol a reolir a phlentyn arall mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig. Gall hyn arwain at rieni yn cymryd amser o'u gwaith ac yn colli eu hawl i wyliau neu ran o'u cyflog o ganlyniad. Fel arall, gallai olygu bod teuluoedd yn gorfod dod o hyd i'r arian i dalu am ofal plant ychwanegol o gyllideb deuluol sydd eisoes yn dynn.

40) Drwy gysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru, gall Gweinidogion Cymru sicrhau nad yw teuluoedd yn wynebu'r anawsterau a ddisgrifir yn y paragraff uchod.

**Dull gweithredu**

41) Wrth benderfynu a ddylid ymyrryd, a sut i wneud hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr egwyddorion canlynol:

42) Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod y cyfarwyddyd hwn yn gam difrifol, ac nid ar chwarae bach y maent wedi penderfynu ei gyhoeddi. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn rhesymol pennu dyddiadau tymhorau er mwyn sicrhau eu bod yr un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol gytuno ar ddyddiadau rhyngddynt. Maent wedi cynnal ymgynghoriad 12 wythnos priodol hefyd i gael safbwyntiau ar y dyddiadau arfaethedig a'r cyfarwyddyd. Maent yn fodlon, felly, bod modd cyfiawnhau'r cyfarwyddyd hwn.

43) Dylai ymyrraeth fod yn gymesur. Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn y cyfarwyddyd yn gymwys i flwyddyn ysgol

2016/2017. Mae hyn yn rhoi cyfle digonol i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y dyddiadau hynny gynllunio yn unol â hynny. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer unrhyw flynyddoedd ysgol eraill, a bydd disgwyl o hyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gytuno ar ddyddiadau tymhorau sydd yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod). Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn ystyried rhai agweddau ar ddyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan bob prif ranbarth yng Nghymru (Gogledd, De, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Maent yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad 12 wythnos ar y dyddiadau arfaethedig hefyd.

**Adolygiad Parhaus o'r Cyfarwyddyd**

44) Gall Gweinidogion Cymru ddirymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd unrhyw amser, a bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu effeithiolrwydd y cyfarwyddyd o dro i dro.

**Gorfodi'r Cyfarwyddyd**

45) Effaith y cyfarwyddyd yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol bennu dyddiadau'r tymhorau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru yn unol â'r cyfarwyddyd.

Llofnodwyd gan......................................................................

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(nodwch y dyddiad)** 2015

**CYFARWYDDYD**

1) Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl wybodaeth a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac maent yn fodlon nad yw dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).M aent wedi cynnal ymgynghoriad priodol hefyd ar y dyddiadau tymhorau arfaethedig y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig eu pennu ac wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

2) Mae Gweinidogion Cymru'n ystyried ei bod yn rhesymol y dylai dyddiadau'r tymhorau fod yr un fath. Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r awdurdodau lleol yng Nghymru a'r cyrff llywodraethu perthnasol yng Nghymru i bennu dyddiadau'r tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17 fel y nodir yn yr Atodlen i'r cyfarwyddyd hwn.

3) Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn rhagfarnu unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

4) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dod i rym am 9am drannoeth ei lofnodi.

Llofnodwyd gan........................................................................

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(nodwch y dyddiad)** 23/6 2015

**ATODLEN**

Y DYDDIADAU TYMHORAU A BENNWYD GAN WEINIDOGION CYMRU AR GYFER BLWYDDYN YSGOL 2016/2017

| | |
|---|---|
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | Dydd Iau 1 Medi 2016 |
| **Gwyliau hanner tymor yr Hydref** | Dydd Llun 24 Hydref 2016<br>tan Ddydd Gwener 28 Hydref 2016 |
| **Gwyliau'r Nadolig** | Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016<br>tan Ddydd Llun 2 Ionawr 2017 (h.y. dychwelyd i'r ysgol Ddydd Mawrth 3 Ionawr 2017) |
| **Hanner tymor y Gwanwyn** | Dydd Llun 20 Chwefror 2017<br>tan Ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 |
| **Gwyliau'r Pasg** | Dydd Llun 10 Ebrill 2017<br>tan Ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 |
| **Hanner tymor yr Haf** | Dydd Llun 29 Mai 2017<br>tan Ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 |
| **Diwrnod olaf yn yr ysgol** | Dydd Gwener 21 Gorffennaf 2017 |

ATODIAD A

HYSBYSIADAU AM DDYDDIADAU TYMHORAU
Y CYTUNWYD ARNYNT

| **Grwpiau Awdurdodau Lleol** | | |
|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol Grŵp A** | **Awdurdod Lleol Grŵp B** | **Awdurdod Lleol Grŵp C** |
| Blaenau Gwent | Conwy | Ceredigion |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Sir Ddinbych | Sir Benfro |
| Caerffili | Sir y Fflint | |
| Caerdydd | Gwynedd | |
| Merthyr Tudful | Wrecsam | |
| Sir Fynwy | Ynys Môn | |
| Castell-nedd Port Talbot | | |
| Casnewydd | | |
| Rhondda Cynon Taf | | |
| Abertawe | | |
| Torfaen | | |
| Bro Morgannwg | | |
| | | |
| **Awdurdod Lleol Grŵp D** | | |
| Powys | | |

ATODIAD B

GRWPIAU AWDURDODAU LLEOL

| **Atodiad – Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol awdurdodau lleol ar gyfer 2016/17** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiadau tymhorau/ gwyliau ysgol** | **Awdurdod lleol grŵp A** | **Awdurdod lleol grŵp B** | **Awdurdod lleol grŵp C** | **Awdurdod lleol grŵp D** |
| *Diwrnod cyntaf blwyddyn ysgol 2016-17* | Dydd Llun 5 Medi 2016 | Dydd Iau 1 Medi 2016 | Dydd Llun 5 Medi 2016 | Dydd Gwener 2 Medi 2016 |
| | | | | |
| *Gwyliau hanner tymor yr Hydref (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 24 Hydref 2016 tan Ddydd Gwener 28 Hydref 2016 | Dydd Llun 31 Hydref 2016 tan Ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 | Dydd Llun 31 Hydref 2016 tan Ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 | Dydd Llun 31 Hydref 2016 tan Ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016 |
| | | | | |
| *Gwyliau'r Nadolig (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 tan Ddydd Llun 2 Ionawr 2017 (h.y. dychwelyd i'r ysgol Ddydd Mawrth 3 Ionawr 2017) | Dydd Llun 26 Rhagfyr tan Ddydd Gwener 6 Ionawr 2017 (h.y. cau ar gyfer y Nadolig Ddydd Gwener 23 Rhagfyr 2016) | Dydd Llun 26 Rhagfyr tan Ddydd Gwener 6 Ionawr 2017 (h.y. cau ar gyfer y Nadolig Ddydd Gwener 23 Rhagfyr 2016) | Dydd Llun 26 Rhagfyr tan Ddydd Gwener 6 Ionawr 2017 (h.y. cau ar gyfer y Nadolig Ddydd Gwener 23 Rhagfyr 2016) |
| | | | | |
| *Gwyliau hanner tymor y Gwanwyn (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 20 Chwefror 2017 tan Ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 | Dydd Llun 20 Chwefror 2017 tan Ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 | Dydd Llun 20 Chwefror 2017 tan Ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 | Dydd Llun 20 Chwefror 2017 tan Ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 |
| | | | | |
| *Gwyliau'r Pasg (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 tan Ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 tan Ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 tan Ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 tan Ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Hanner tymor yr haf (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 29 Mai 2017 tan Ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 | Dydd Llun 29 Mai 2017 tan Ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 | Dydd Llun 29 Mai 2017 tan Ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 | Dydd Llun 29 Mai 2017 tan Ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 |
| | | | | |
| *Diwrnod olaf blwyddyn ysgol 2016-17* | Dydd Mawrth 25 Gorffennaf 2017 | Dydd Iau 20 Gorffennaf 2017 | Dydd Llun 24 Gorffennaf 2017 | Dydd Gwener 21 Gorffennaf 2017 |